O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 3221 (Cy. 323)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cilfan tua'r De rhwng Cylchfan Court Farm a Chylchfan Pont-y-Pŵl, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *27 Rhagfyr 2012*

Yn dod i rym *7 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cilfan tua'r De rhwng Cylchfan Court Farm a Chylchfan Pont-y-Pŵl, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 7 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn cyfan o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbytffordd yr A4042 tua'r de rhwng Cylchfan Court Farm a Chylchfan Pont-y-Pŵl ym Mwrdeistref Sirol Torfaen.